**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Mehefin 2019

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Yn dilyn Datganiad Busnes y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 21 Mai, rwy'n ysgrifennu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am fysiau trydan.

Mae Cymru wedi profi llwyddiant yn ddiweddar wrth gyflwyno ceisiadau i'r Cynllun Bysiau Isel Iawn eu Hallyriadau a gynigir gan Lywodraeth y DU. Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi cael £5.6m, mae Stagecoach De Cymru wedi cael £2.8m ac mae Trafnidiaeth Casnewydd wedi cael £1m. Cyhoeddwyd y cynllun gan yr Adran Drafnidiaeth ym mis Chwefror 2019, a bydd y cyllid yn golygu y bydd modd cyflwyno'r cynlluniau isod:

- 36 o fysiau trydan a seilwaith ategol ar draws 3 o'r llwybrau bysiau sydd gan Bws Caerdydd yng Nghaerdydd. Mae'r bysiau hyn yn 15% o fflyd Bws Caerdydd, ond bydd cyflwyno'r cerbydau hyn yn golygu hefyd y bydd modd cael gwared ar y cerbydau hynny (Euro III) yn fflyd Bws Caerdydd sy'n llygru fwyaf. Am ragor o wybodaeth, ewch i dolen.

- 16 o fysiau trydan a seilwaith ategol gan Stagecoach yn ardal Caerffili. Disgwylir i'r bysiau trydan unllawr fod yn weithredol o 2020 ymlaen a bydd y bysiau trydan newydd yn disodli cerbydau Euro III confensiynol – byddant yn gweithio o ddepo Caerffili. Rwy'n cael ar ddeall wrth Stagecoach y bydd y fflyd newydd o fysiau trydan yn cynhyrchu 572 o dunelli yn llai o $CO_2$ bob blwyddyn (o'u cymharu â bws diesel Euro VI. Bydd y gostyngiad hwn yn fwy mewn gwirionedd oherwydd y bydd cerbydau Euro III yn cael eu disodli). Bydd hyn hefyd yn cefnogi Cynllun Gweithredu'r rhanbarth ar Ansawdd Aer. Am ragor o wybodaeth, ewch i dolen.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae Trafnidiaeth Casnewydd wedi archebu 15 o fysiau trydan unllawr Yutong E12, a fydd yn cael eu cyflenwi gan Pelican Engineering. Yr archeb hon yw'r gyntaf yn y DU am y cerbyd 12m o hyd, sydd â seddi ar gyfer hyd at 39 o deithwyr ac sydd, yn ôl y cwmni, yn gallu rhedeg am hyd at 200 milltir (330km). Disgwylir i fws arddangos yr Yutong 12, a fydd mewn lliwiau Trafnidiaeth Casnewydd, gyrraedd ym mis Gorffennaf, cyn i'r saith cerbyd cyntaf gyrraedd ym mis Chwefror 2020. Bydd y saith cerbyd arall yn cyrraedd ym mis Ebrill 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â'r diwydiant bysiau i ystyried y posibiliadau ar gyfer symud ymlaen i wireddu ei dyhead i weld fflyd bysiau heb unrhyw allyriadau erbyn 2028.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport